# Cyngor Cymuned Mawddwy

**Clerc: Mr Huw T. Jones, Henllys, Mallwyd, Machynlleth, Powys. SY20 9HS.**
☏ **01650 531 405**
**E bost: *Cyngormawddwy@outlook.com***

28ain Medi 2025

Annwyl Gyfaill

CYNHELIR **CYFARFOD o GYNGOR CYMUNED MAWDDWY *Nos Fercher yr 8fed o Hydref am 7 .30pm yn y Neuadd, Dinas Mawddwy.***

**Nodyn ar gyfer y cyhoedd.** Mae croeso i'r cyhoedd arsylwi ar gyfarfodydd y Cyngor fel arfer, gan gynnwys gwneud hynny yn rhithiol os oes angen. (Deddf Llywodraeth Lleol ac Etholiadau 2021 Adran 47 – cyfarfod aml-leoliad) . Cysyllter â'r Clerc am fanylion o leiaf 3 diwrnod llawn cyn y cyfarfod, er mwyn sicrhau fod y trefniadau priodol mewn lle.

Edrychaf ymlaen i'ch gweld.

Yn Gywir,

Huw T Jones

**CLERC**

## AGENDA

1.Gair o groeso a derbyn ymddiheuriadau. Gwahodd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.

2. Cyfle i dderbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda. (Bydd angen cysylltu gyda'r Clerc ymlaenllaw.)

3.Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 27ain o Awst 2025 – gweler yn atodol.

4**. Materion yn codi,**

a) Materion Llwybrau, Priffyrdd a Chefnffyrdd.

b) Dyfodol Eglwys Llanymawddwy -derbyn y diweddaraf.

c) Pwyllgor yr Hen Fynwent – derbyn y diweddaraf yn dilyn gohebu efo Nansi Thirsk. Hefyd penderfynnu a ddylai'r Cyngor Cymuned ddod yn 'gleient' i Gwmni Guthrie Jones & Jones, er mwyn mynd ymlaen i benodi ymddiriedolwyr maes o law.

Hefyd gohebiaeth parthed beddi milwyr yn hen fynwent Dinas Mawddwy (Commonwealth War graves)

d) Safle chwarae i blant hyd at 15 oed yn y Plas yn Dinas – derbyn y diweddaraf – a phenderfynnu ar y ffordd ymlaen efo hyn.

e) Torri gwair mynwentydd – nodi cwbwlhau y gwaith eleni, a hefyd ystyried hysbyseb ddrafft i fynd i'r wasg ar gyfer y gwaith yma yn 2026.

f) Safle y gofgolofn yn Minllyn.

g) **Cynllun 'Gwynedd Ni'** – cronfa Cynghorau tref/Cymuned - ystyried y diweddaraf yn dilyn cyfarfod arbennig ar y 15fed o Fedi.

Cadarnhau y gwaith sydd ar y gweill yn yr hen fynwent yn dilyn llwyddiant y cais i'r Gronfa 'Gwynedd Ni'

Nodi bod y meinciau /byrddau picnic wedi eu derbyn drwy'r grant, a bod angen penderfynnu pwy sy'n eu gosod, ac ymhle. (noder fod taliad rhan yma y grant wedi ei dderbyn) Hefyd diolch i Cyng Idris Jones am drwsio meiciau.

h) Cwynion am sefyllfa carafannau Min y Goedwig, Aberangell.

i) Nodi gohebiaeth ynglyn a tario y ffordd i Ty'n y Braich, a cais i'r Cyngor Cymuned gywirio'r map sydd gan Gyngor Gwynedd.

**5. Materion Cynllunio**

6.**Materion Cyllid.**

a) Cyfrifon banc – nodi balansau. Hefyd paratoi y gyllideb i wariant y Cyngor Cymuned ar gyfer y flwyddyn 2026-27.(hyn yn sail i benderfyniad ar y praesept ym mis Rhagfyr)

b) Anfonebau i'w talu

- Gareth W Davies – torri gwair mynwentydd (trydydd dro)
- Cydnabyddiaeth ail chwarter y Clerc ynghyd ag HMRC
- Anfoneb J A Owen - agor bedd Llanymawddwy 2.08.25

c) Ceisiadau am arian.

- Theatr Bara Caws

**7.Gohebiaeth**

**a)** Sesiynau Hyfforddiant Un Llais Cymru

**b)** Cod Ymddygiad – wedi ei gylchredeg i'r Cynghorwyr 23.09.25

**c)** Swyddfa'r Post, Dinas Mawddwy – nodi adroddiad am gyfarfod arbennig gan y Cyngor Cymuned 3.10.25.

8. **Unrhyw fater arall**

- Trefniadau Sul y Cofio eleni